Darganfod
Dadlau
Dewis

—

Discover
Debate
Decide


# Bagloriaeth Cymru—Canolradd
# Llyfryn 01—Beth yw Gwleidyddiaeth?



## Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.**

# Beth yw Gwleidyddiaeth?



[1]

**Gwleidyddiaeth yw'r grefft o chwilio am drwbwl, dod o hyd iddo, gwneud y diagnosis anghywir ohono, ac yna camweithredu'r meddyginiaethau anghywir.**

**- Groucho Marks, Digrifiwr o UDA**

**Gwleidyddiaeth yw'r system a ddefnyddiwn i wneud, i gadw neu i newid y rheolau rydym yn byw oddi tanynt.**

**Mewn geiriau eraill, gwleidyddiaeth yw'r hyn sy'n penderfynu sut rydym yn byw ein bywydau!**

## Gweithgaredd 1
## Deddfau Rhyfedd

**Isod, mae rhestr o ddeddfau rhyfedd. Mae rhai yn wir, ond dychmygol yw eraill. Rhowch C (cywir) neu A (anghywir) ger pob deddf i ddangos a ydych yn credu ai gwir ynteu ddychmygol yw hi.**

**(Atebion ar y tudalen olaf)**

| | |
|---|---|
| **Rhaid i ferched gael caniatâd ysgrifenedig gan eu gwŷr i wisgo dannedd gosod.** | |
| **Mae modd arestio dyn am wisgo sgert.** | |
| **Os nad yw plant wedi cael eu brechu rhag afiechydon fel y frech goch a Tiwberciwlosis, cânt eu gwahardd rhag mynd i'r ysgol a rhag bod yn aelodau o glybiau ieuenctid a thimoedd chwaraeon.** | |
| **Cyn ailbeintio'ch tŷ, rhaid i chi gael trwydded peintio a chaniatâd gan y llywodraeth.** | |


| |
|---|
| Dim ond goleuadau gwyn y cewch eu harddangos dros y Nadolig. |
| Os bydd pobl yn euog dair gwaith o ollwng sbwriel, cânt eu gorfodi i lanhau'r strydoedd ar ddydd Sul yn gwisgo bib sy'n dweud, "Rwy'n gollwng sbwriel." |
| Dim ond trydanwyr trwyddedig gaiff newid bwlb golau. |
| Os nad yw pobl yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau cadw'n heini yn wythnosol a gaiff eu rhedeg gan y llywodraeth, rhaid iddynt dalu rhagor o drethi am eu gofal iechyd. |
| Mae perchnogion tai'n gyfrifol am glirio eira oddi ar y palmant y tu allan i'w tai. |
| Ni cheir codi tâl ar neb am fwyta mewn tafarn oni bai eu bod, yn eu barn nhw, "yn llawn". |
| Rhaid medru gweld rhan o'r awyr, waeth pa mor fach, o bob swyddfa. |
| Ni chaiff athrawesau mewn ysgol godiad cyflog os byddant yn torri eu gwallt mewn 'bob'. |
| Os bydd ymwelydd yn curo ar eich drws ac yn gofyn a gaiff ddefnyddio'r toiled, rhaid i chi ganiatáu iddo neu iddi wneud hynny. |
| Rhaid rhoi label ar bob darn o gig sydd ar werth mewn archfarchnad gan nodi tarddiad y cig, enw a rhif ffôn y ffermwr. |

## Pynciau i'w trafod

**Pa ddeddfau yn y rhestr yw'r gwaethaf yn eich barn chi? Pam?**

**Ydych chi'n cytuno ag unrhyw un o'r deddfau hyn o ran egwyddor? Pam?**

# Beth yw Llywodraeth?



**Petai dynion yn angylion, fyddai dim angen llywodraeth.**


James Madison, Arlywydd UDA (1809-17)

[2]

**Miloedd o flynyddoedd yn ôl, byddai pobl yn byw mewn cymunedau bach, hunangynhaliol ac nid oedd angen hierarchiaeth na systemau cymhleth o reolau.**

**Newidiodd hyn i gyd wrth i amaethyddiaeth ddatblygu. Tyfodd y cymunedau a daethant yn fwy poblog. O ganlyniad, roedd angen cyflwyno dull o drefnu pobl a gweithgareddau. Sefydliad yw llywodraeth a ddefnyddir gan unedau gwleidyddol i reoli ac i roi rheolau a syniadau newydd ar waith.**

**Nid oes neb yn gwybod yn sicr pryd sefydlwyd y llywodraeth gyntaf yn y byd, ond erbyn y drydedd neu'r ail fileniwm CC roedd nifer o wladwriaethau dinesig wedi datblygu'n ardaloedd eang a oedd yn cael eu llywodraethu.**



# Anarchiaeth

**Y gwrthwyneb i lywodraeth yw anarchiaeth. Daw'r gair o'r Groeg ἀναρχίᾱ *anarchíā*, sy'n golygu 'heb reolwr'.**

## Gweithgaredd 2
## Anarchiaeth!

**Meddyliwch am unrhyw un o'r mannau cyhoeddus isod (neu ewch i ymweld ag un ohonynt os ydych yn teimlo y byddai'n eich ysbrydoli chi) ac ysgrifennwch yr hyn a allai ddigwydd pe na bai rheolau i reoli ymddygiad pobl:**

- **Archfarchnad**
- **Rhan brysur o'r ffordd**
- **Gêm bêl-droed**
- **Ysgol**
- **Caffi / bwyty**
- **Y parc lleol**
- **Clwb nos**



## Pynciau i'w trafod

**Faint ohonoch chi fyddai'n hapus yn byw mewn gwlad heb lywodraeth? Pam?**

**Mae llawer yn cael ei ddweud a'i ysgrifennu yn y cyfryngau am y 'Wladwriaeth Faldodus'. Ydych chi'n meddwl bod rhai sefyllfaoedd mewn bywyd lle rydym yn cael ein rheoli'n rhy gaeth a lle mae gormod o reolau? Eglurwch pam rydych yn teimlo fel hyn. Pam rydych chi'n meddwl bod y rheolau wedi'u creu? A fyddai pethau'n gwaethygu pe bai'r rheolau yn diflannu?**

# Mathau o Lywodraethau



Byddai unbennaeth yn llawer haws, does dim dwywaith am hynny.

George W. Bush, Arlywydd UDA (2001-09)

[3]

Mae nifer o wahanol fathau o lywodraethau o amgylch y byd.

## Brenhiniaeth

Unrhyw wlad sydd â brenin neu frenhines.

Mewn brenhiniaeth absoliwt, aelodau rheng uchaf y teulu brenhinol sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae gan frenhiniaeth gyfansoddiadol lywodraeth a gaiff ei hethol yn ddemocrataidd yn ogystal â brenin neu frenhines, felly nid oes gan y teulu brenhinol gymaint o bŵer.



[4]

Y Frenhines Beatrix, (ar y chwith) Pennaeth y Wladwriaeth yn yr Iseldiroedd, brenhiniaeth gyfansoddiadol.



[5]

Y Brenin Abdullah (ar y dde), Pennaeth y Wladwriaeth yn Saudi Arabia.



## Gwladwriaeth Un Blaid

**Gwlad sydd â dim ond un blaid wleidyddol.**

**Mae Fidel Castro (ar y chwith) yn enghraifft o arweinydd gwladwriaeth un blaid. Ni chaniateir i'r un blaid wleidyddol arall sefyll etholiad.**


6

## Unbennaeth

**Gwlad ble mae gan berson neu blaid wleidyddol y pŵer i wneud unrhyw beth, ac mae'n bosibl y byddant yn defnyddio grym i gadw rheolaeth. Mewn unbennaeth filwrol, y fyddin sy'n rheoli.**




7 8



**Adolf Hitler (ar y chwith) a Josef Stalin (ar y dde) yw dau o unbeniaid mwyaf ffiaidd yr ugeinfed ganrif. Tra oeddynt mewn grym, carcharwyd neu llofruddiwyd miliynau o'u cydwladwyr.**

**Enghreifftiau o wledydd sy'n cael eu rheoli gan unben heddiw yw gogledd Korea a Zimbabwe.**



9

Robert Mugabe (ar y chwith), hen athro a Phennaeth y Wladwriaeth yn Zimbabwe.



10

Mae bywgraffyddion swyddogol Kim Jong-Il (ar y dde), arweinydd newydd ymadawedig Gogledd Korea, yn honni bod dwy enfys wedi ymddangos uwchben y mynydd a seren newydd wedi ymddangos yn y nen pan gafodd ei eni.




11

## Democratiaeth

Llywodraeth a gaiff ei hethol gan y bobl. Y rhai sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio sy'n penderfynu pwy sy'n rhedeg eu gwlad.

## Llywodraeth Dros Dro

Mae'n amhosibl i wlad symud o'r naill lywodraeth i'r llall dros nos, ac weithiau gall y broses gymryd nifer o flynyddoedd. Llywodraeth 'dros dro' sydd mewn grym dros y cyfnod hwn.

12



Llywodraeth dros dro oedd mewn grym yn Irac ar ôl disodli Saddam Hussein. Ei gwaith oedd goruchwylio'r broses o ysgrifennu cyfansoddiad newydd a threfnu a chynnal etholiadau ar gyfer llywodraeth barhaol newydd yn Irac.

## Gweriniaeth

**Gwlad lle nad oes brenin na brenhines. Yn yr achos hwn, caiff arlywydd ei (h)ethol yn bennaeth ar y wladwriaeth. Gwladwriaethau yw UDA, Rwsia, India, yr Almaen a Ffrainc.**

## Llywodraeth Chwyldroadol


**Dyma yw'r enw a roddir yn aml ar grŵp rheoli newydd pan ddefnyddir grym i ddymchwel llywodraeth.**

13



**Pa fath o lywodraeth sydd gennym yn y Deyrnas Unedig?**

# Democratiaeth



**Dyfais yw democratiaeth sy'n sicrhau na chawn ein llywodraethu yn well na'n haeddiant.**

**George Bernard Shaw, dramodydd ac ysgrifwr o Iwerddon**

[14]

**Democratiaeth yw'r math mwyaf cyffredin o lywodraeth yn y byd.**

**Daw'r term o'r Groeg δημοκρατία - (*dēmokratía*), sy'n golygu "rheoli pobl".**

## Mae dau fath o ddemocratiaeth:

**-Democratiaeth uniongyrchol – mae'r holl ddinasyddion yn cyfrannu at benderfyniadau'n ymwneud â pholisïau a deddfau.**

**-Democratiaeth gynrychiadol – caiff gwleidyddion eu hethol i wneud y gwaith hwnnw ar ein rhan.**

# Pynciau i'w trafod

**Pa ffordd yw'r decaf o benderfynu sut rydym yn byw - democratiaeth uniongyrchol ynteu ddemocratiaeth gynrychiadol?**

**Pam nad yw democratiaeth uniongyrchol bob amser yn ymarferol?**

# Beth yw gwleidydd?




15

**Rhyfel heb dywallt gwaed yw gwleidyddiaeth a gwleidyddiaeth gyda thywallt gwaed yw rhyfel.**

Mao Zedong, Arweinydd Tsieina (1943-1976)


Mewn democratiaeth, mae gwleidyddion yn cyfrannu'n uniongyrchol at y broses o wneud penderfyniadau. Rydym yn dewis ein gwleidyddion mewn etholiadau, sy'n cael eu cynnal bob pedair i bum mlynedd fel arfer.


Mae'r rhan fwyaf o wleidyddion yn perthyn i bleidiau gwleidyddol. Plaid wleidyddol yw grŵp o bobl sy'n rhannu syniadau tebyg am y modd y dylid gwella pethau. Gwleidyddion 'annibynnol' yw'r rhai nad ydynt yn perthyn i'r un blaid wleidyddol.



## Gweithgaredd 3
## Beth sy'n gwneud gwleidydd da?

**Defnyddiwch yr enghraifft isod ac ychwanegwch delweddau i'r amlinelliad ar y dudalen nesaf i ddangos y math o sgiliau sydd gan wleidydd da. Gallwch ddefnyddio pinnau ffelt, clip art neu luniau o bapurau newydd a chylchgronau.**





# Gweithgaredd 4
# Fy Myd Perffaith

**Cyn etholiad, bydd yr holl bleidiau gwleidyddol a'r ymgeiswyr annibynnol yn cyhoeddi'r hyn a alwn yn faniffesto. Yn y maniffesto, byddant yn rhestru hyn y maent yn addo ei wneud os cânt eu hethol.**

**Gweithiwch mewn grwpiau bach i benderfynu ar yr hyn y byddech chi'n ei wneud pe baech chi'n rheoli'r wlad. Defnyddiwch y blychau isod i restru syniadau, yna ysgrifennwch y syniadau yn y templed ar gyfer maniffesto ar y dudalen nesaf. Cofiwch y bydd angen enw ar eich plaid wleidyddol a slogan bachog ar gyfer yr etholiad i annog pobl i bleidleisio drosoch chi. Cofiwch ychwanegu rhesymau i gyd-fynd â phob syniad i argyhoeddi pobl mai'ch maniffesto chi yw'r gorau.**

**Yna dylid darllen yr holl faniffestos i weddill y grŵp. Ar ôl gwneud hyn, defnyddiwch y papur pleidleisio ar y dudalen olaf i bleidleisio dros y blaid yr hoffech chi ei weld yn ffurfio llywodraeth.**

<table>
<tr><th>Enwau posibl i'r blaid</th><th>Slogan etholiadol</th></tr>
<tr><td></td><td></td></tr>
<tr><th colspan="2">Addewidion posibl i'w rhoi yn y maniffesto</th></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
</table>

# Maniffesto Etholiadol

**Enw'r blaid: ________________________**

**Ein slogan: __________________________**

**Nodwch DAIR addewid etholiadol yn ymwneud â'r meysydd a ganlyn:**

-Yr amgylchedd
-Ysgolion a cholegau
-Gofal iechyd
-Trafnidiaeth
-Cyfiawnder troseddol

**1. Rydym yn addo…**

**2. Rydym yn addo…**

**3. Rydym yn addo…**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales**
**Pleidlais Etholaeth / Constituency Ballot**

**Pleidleisiwch dros un ymgeisydd / Vote for one candidate.**
**Marciwch X mewn un blwch / Mark an X in one box.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| 2 | | | |
| 3 | | | |
| 4 | | | |
| 5 | | | |
| 6 | | | |
| 7 | | | |

## Atebion i Weithgaredd 1 – Cyfreithiau Rhyfedd

| |
|---|
| Rhaid i ferched gael caniatâd ysgrifenedig gan eu gwŷr i wisgo dannedd gosod.<br>CYWIR – VERMONT, UDA |
| Mae modd arestio dyn am wisgo sgert.<br>CYWIR – YR EIDAL |
| Os nad yw plant wedi cael eu brechu rhag afiechydon fel y frech goch a Tiwberciwlosis, cânt eu gwahardd rhag mynd i'r ysgol a rhag bod yn aelodau o glybiau ieuenctid a thimau chwaraeon.<br>ANGHYWIR |
| Cyn ailbeintio'ch tŷ, rhaid i chi gael trwydded peintio a chaniatâd gan y llywodraeth.<br>CYWIR – SWEDEN |
| Dim ond goleuadau gwyn y cewch eu harddangos dros y Nadolig.<br>CYWIR – CONNECTICUT, UDA |
| Os bydd pobl yn euog dair gwaith o ollwng sbwriel, cânt eu gorfodi i lanhau'r strydoedd ar ddydd Sul yn gwisgo bib sy'n dweud, "Rwy'n gollwng sbwriel."<br>CYWIR – SINGAPÔR |
| Dim ond trydanwyr trwyddedig gaiff newid bwlb golau.<br>CYWIR – AWSTRALIA |
| Os nad yw pobl yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau cadw'n heini yn wythnosol a gaiff eu rhedeg gan y llywodraeth, rhaid iddynt dalu rhagor o drethi am eu gofal iechyd.<br>ANGHYWIR |
| Mae perchnogion tai'n gyfrifol am glirio eira oddi ar y palmant y tu allan i'w tai.<br>CYWIR – CANADA |
| Ni cheir codi tâl ar neb am fwyta mewn tafarn oni bai eu bod, yn eu barn nhw, "yn llawn".<br>CYWIR – DENMARC |
| Rhaid medru gweld rhan o'r awyr, waeth pa mor fach, o bob swyddfa.<br>CYWIR – YR ALMAEN |
| Ni chaiff athrawesau mewn ysgol godiad cyflog os byddant yn torri eu gwallt mewn 'bob'.<br>CYWIR – ARKANSAS, UDA |
| Os bydd ymwelydd yn curo ar eich drws ac yn gofyn a gaiff ddefnyddio'r toiled, rhaid i chi ganiatáu iddo neu iddi wneud hynny.<br>CYWIR – YR ALBAN |
| Rhaid rhoi label ar bob darn o gig sydd ar werth mewn archfarchnad gan nodi tarddiad y cig enw a rhif ffôn y ffermwr.<br>ANGHYWIR |

# Tarddiadau'r Lluniau

[1] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Groucho_Marx.jpg. Trwydded: Parth cyhoeddus.

[2] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:JamesMadison.jpg Awdur: Gilbert Stuart. Trwydded: Parth cyhoeddus.

[3] Tarddiad: http://www.defenselink.mil/photos/newsphoto.aspx?newsphotoid=4269. Awdur: Eric Draper. Trwydded: Parth cyhoeddus.

[4] Tarddiad: http://frozenimage.nl/fotos/mensen/koningin-beatrix/koningin-beatrix-in-vries-14. Awdur: Emiel Ketelaar, Frozenimage. Trwydded: Creative Commons Attribution 3.0 Unported

[5] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Abdullah_of_Saudi_Arabia.jpg. Trwydded: Parth cyhoeddus.

[6] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Fidel_Castro.jpg. Awdur: Antonio Milena. Trwydded: Creative Commons Attribution 2.5 Brazil.

[7] Tarddiad: Das Bundesarchiv Bild 183-S62600. Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0

[8] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Joseph_Stalin.jpg. Awdur: Margaret Bourke White. Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0

[9] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Mugabecloseup2008.jpg Awdur: Tech. Sgt. Jeremy Lock (USAF). Trwydded: Parth cyhoeddus.

[10] Tarddiad: http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Kim_Jong-Il.jpg Awdur: Presidential Press and Information Office / JJ Georges. Trwydded: Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported.

[11] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Polling_Station_2008.jpg. Awdur: Man vyi. Trwydded: Parth cyhoeddus.

[12] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:BrennendeOelquellenKuwait1991.jpg. Awdur: US Army. Trwydded: Parth cyhoeddus.

[13] "The Storming of the Bastille", Jean-Pierre Houël (1735-1813). Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Prise_de_la_Bastille.jpg. Trwydded: Parth cyhoeddus.

[14] Tarddiad: http://nobelprize.org/nobel_prizes/literature/laureates/1925/shaw-bio.html. Awdur: Nobel Foundation. Trwydded: Parth cyhoeddus

[15] Tarddiad: http://en.wikipedia.org/wiki/File:Mao.jpg. Awdur: Zhang Zhenshi. Trwydded: Parth cyhoeddus.